**PWYLLGOR ARCHWILIO: CYLCH GORCHWYL DRAFFT**

Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol dros y canlynol (ac yn cael ei ddirprwyo'n unol â hynny):

1. **Llywodraethiad**

   (a) Goruchwylio cynhyrchiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o Ddatganiad Llywodraethiad blynyddol ac argymell ei fabwysiad i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

   (b) Cynnal cynhyrchiad o gyfansoddiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn enwedig parthed rheolau caffael cytundeb a rheolau caffael ariannol.

   (c) Adolygu unrhyw fater gyfeirir ato gan y Prif Swyddog Tân, S. 151 Swyddog neu Glerc, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru neu'r Panel Gweithredol.

2. **Ariannol, Adnoddau a Rheolaeth a Sicrwydd Cyffredinol**

   Bydd y Pwyllgor yn:

   (a) cymeradwyo Rhaglen Waith Flynyddol Archwiliad Mewnol;

   (b) ystyried adroddiadau'r Archwiliad Mewnol;

   (c) ystyried Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol;

   (d) apwyntio Gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol ac effeithlon;

   (e) adolygu perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol;

   (f) ystyried Llythyr Rheoli Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru;

   (g) ystyried y Datganiadau Ariannol Blynyddol a darparu unrhyw sylwadau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;

   (h) darparu adborth i Swyddfa Archwilio Cymru ar berfformiad yr archwiliad allanol.

3. **Panel Rheoli Risg**

   Bydd y Pwyllgor yn:

   (a) monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol rheoli risg corfforaethol a llywodraethiad corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;

   (b) monitro effeithiolrwydd yr amgylchedd reoli fewnol.

4. **Perfformiad**

Bydd y Pwyllgor yn:

(a) adolygu effeithiolrwydd ei reolaeth perfformio;

(b) adolygu cyflawniad nodau'r Cynllun Strategol;

(c) adolygu cyflawniad dangosyddion perfformiad gytunwyd arnynt;
ac yn

(d) gwneud sylwadau'n gyffredinol ac yn gwneud argymhellion i Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru neu'r Grŵp Gweithredol ar berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5. **Gorolwg a Chraffu**

Gall y Pwyllgor:

(a) Adolygu effeithiolrwydd polisïau a strategaethau gymeradwywyd gan y Panel Gweithredol;

(b) Adolygu effeithiolrwydd penderfyniadau wnaed gan y Panel Gweithredol;

(c) Adolygu perfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyffredinol;

(d) Gwneud adroddiadau neu argymhellion i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Panel Gweithredol neu'r Grŵp Gweithredol fel mae'n ystyried yn gymwys;

(e) Gofyn i'r Clerc fod mater yn cael ei ychwanegu i unrhyw agenda i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Panel Gweithredol neu Grŵp Gweithredol cyn belled bod o leiaf 10 diwrnod clir o rybudd yn cael ei roi o'r fath rybudd. Cymerir pob cam rhesymol i ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar y mater yn y cyfarfod, ond lle nad yw hyn yn bosib, rhoddir adroddiad llafar;

(f) Rhoddir yr hawl i wneud cais o dan baragraff (d) i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio neu unrhyw dri Aelod o'r Pwyllgor;

(g) lle mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried fod mater yn gofyn am ystyriaeth frys gan unai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru neu'r Panel Gweithredol, yna bydd gan y Pwyllgor Archwilio'r pŵer i ofyn am gyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw yn unol â rheol (d) uchod.